

# technocamps

Inspiring | Creative | Fun

Ysbrydoledig | Creadigol | Hwyl



## Greenfoot Awgrymiadau Defnyddiol



Mae Greenfoot yn amgylchedd rhaglennu gweledol rhagarweiniol sy'n defnyddio iaith rhaglennu "Java", iaith werthfawr iawn yn y Diwydiant Cyfrifiadureg. Un o fuddion defnyddio Greenfoot i gael cyflwyniad i raglennu yw nid yn unig y canllawiau a'r tiwtorialau cynorthwyol sydd ar gael, ond hefyd y rhyngwyneb defnyddiwr lliwgar hawdd ei ddefnyddio. I lawrlwytho Greenfoot cliciwch ar y ddolen ganlynol i lawrlwytho i un ai Mac, Windows neu Linux:

<http://www.greenfoot.org/download>

### Iaith Rhaglennu Java

Mae Java yn iaith rhaglennu boblogaidd yn y Diwydiant Cyfrifiadureg. Mae Java yn iaith rhaglennu "sy'n seiliedig ar wrthrychau", ac mae hyn yn golygu ei fod yn seiliedig ar "wrthrychau" sef blociau o god y mae modd eu haildefnyddio ar ôl iddynt gael eu hysgrifennu. Mae hyn yn arbed unrhyw god rhag cael ei ddyblygu ac mae'n gwneud y cod yn hawdd i'w ddarllen a'i ddeall. Cafodd ei greu yn 1991 gan Sun Microsystems, a chafodd ei ddatblygu i gynnig "iaith rhaglennu platform annibynnol". Mae'n perthyn yn agos i ieithoedd rhaglennu C a C++ a'u cystrawen, felly unwaith y byddwch yn gyfarwydd ac yn hyderus o ran defnyddio Java, mae symud ymlaen i ieithoedd rhaglennu eraill yn bosibl i'r rheini sydd am ddysgu rhagor am raglennu.

Tasg	Sut
Ychwanegu gwrthrychau at y Byd	I ychwanegu gwrthrych, de-gliciwch ar y dosbarth "Actor" a cliciwch ar "New subclass". Bydd blwch deialog yn ymddangos lle gallwch fewnbynnu enw eich cymeriad a dewis y ddelwedd i'w defnyddio. Gallwch fewnbynnu eich delwedd eich hun os dymunwch. Noder: Wrth enwi eich gwrthrych ni allwch ddefnyddio bylchau, byddwch yn ymwybodol o'r defnydd o briflythrennau.
Ychwanegu llawer o'r un gwrthrych at y Byd	I barhau i ychwanegu llawer o wrthrychau, er enghraifft i boblogi eich gêm â collectables, ychwanegwch eich "Actor" cyntaf at eich Byd ac yna daliwch i lawr y fysel "SHIFT" gan barhau i glicio o gwmpas eich sgrin yn gosod y
Cadw'r Byd i ailosod gwrthrychau a phoblogi'r Byd ar ôl clicio ar "Compile"	Pan fydd eich Byd yn edrych fel yr hoffech iddo wneud, de-gliciwch ar y Byd a dewiswch "Save the World". Bydd hyn yn creu dull yn y Byd i chi fydd yn paratoi'r Byd i edrych y ffordd rydych wedi'i osod bob tro y cliciwch ar "Compile"
Fformatio eich cod	I fformatio eich cod yn awtomatig, gallwch glicio ar "Edit" ac yna "Auto Layout". Bydd hyn yn gwneud y cod lawer yn haws i'w ddarllen a'i ddatfygio, yn enwedig os ydych yn newydd i raglennu. Noder: Dylid ei fformatio bob tro trwy fewnosod, gan ei wneud yn haws i chi a rhaglennwyr eraill ddarllen a chanfod gwallau.
Newid lliw'r cod	Gallwch newid cyferbynnedd lliwiau'r testun cod a ddefnyddir yn Greenfoot trwy ddewis "Options" yna "Preferences". Bydd gosod y gosodiad lliw ar y tywyllaf yn eich galluogi i nodi'n hawdd lle mae pob dull yn dechrau ac yn gorffen gan fod y rhagosodiad yn olau ac yn anodd ei weld.
Cael mynediad i'r API	I gael mynediad i'r API (Rhyngwyneb Rhaglennu Cymhwysiad) ar gyfer y Byd/Actor, cliciwch ar un o'r ddau yn ffenestr Greenfoot. Maent yn cynnwys dulliau sydd eisoes wedi'u rhaglennu i chi eu defnyddio. Mae API yn dweud popeth wrthyh am y cod y gallwch ei ddefnyddio wrth godio. Mae rhagor o wybodaeth am ddulliau Greenfoot ar gael ar wefan Greenfoot.

# technocamps



[www.technocamps.com](http://www.technocamps.com)

